



RÔL YSGRIFENNYDD RHAGLEN CLWB

FEL YSGRIFENNYDD RHAGLEN Y CLWB...

Bydd angen i chi fod yn ymrwymedig, trefnus a chael amser i wrando ar eich aelodau a'u cynnwys wrth gynllunio rhaglen clwb da.

Mae bob amser yn dda casglu syniadau gan yr aelodau eu hunain ar ddechrau'r flwyddyn gan y bydd hyn yn creu mwy o ddiddordeb ac yn arwain at fwy o ymgysylltiad aelodaeth.

Mae'n waith pwysig ac mae'n cymryd gwaith caled ac ymdrech i lunio rhaglen sy'n cynnig rhywbeth i bawb ei mwynhau a fydd hefyd yn denu aelodau newydd ac yn annog pawb i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau CFFI.

Byddwch yn manteisio ar gyfleoedd hyfforddi i'ch helpu yn eich rôl a bydd angen i chi hefyd weithio'n agos gyda swyddogion, arweinwyr a phwyllgor ymgynghorol eraill y clwb. Byddwch yn barod i gysylltu â sefydliadau eraill, gwneud yr archebion angenrheidiol a gweithio gyda'r dyddiadur sirol.

MAE EICH CYFRIFOLDEBAU YN CYNWYS:

- Chwilio am syniadau rhaglenni newydd o lu o ffynonellau, gan gynnwys eich aelodau, arweinwyr, cynghorwyr, ffrindiau, staff sir ac adnoddau CFFI.
- Trefnu syniadau i greu rhaglen clwb amrywiol a deniadol sydd â rhywbeth at ddant pawb.
- Cysylltu â sefydliadau, siaradwyr a lleoliadau lleol i archebu ac unrhyw drefniadau angenrheidiol eraill.
- Cysylltu'n agos â'r trysorydd i weithio a chynllunio digwyddiadau o fewn cyllideb.
- Cadw calendr o ddigwyddiadau wedi'u diweddarau ac i ddiweddarau aelodau ym mhob cyfarfod clwb.
- Cydlynu rhaglen eich clwb gyda dyddiadur y sir, fel nad yw digwyddiadau clwb a sirol yn gwrthdaro. Dylech gynnwys digwyddiadau sirol, ardal a chenedlaethol yng nghalendr eich clwb eich hun, a chofiwch drefnu digwyddiadau eich clwb yn amserlen y sir cyn gynted ag y bydd dyddiadau'n cael eu gosod.
- Gwerthuso rhaglen eich clwb yn rheolaidd, fel y gellir adeiladu arni a'i gwella. ➤ Gweithio gyda swyddogion eraill y clwb i sicrhau bod gofynion diogelu ac iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni, bod yr holl weithgareddau'n cael eu hasesu'n risg, bod ffurflenni caniatâd rhieni yn cael eu defnyddio a bod unrhyw gynorthwyyr a gwesteion yn cael eu gwirio, os oes angen.

- Sicrhau bod gennych gopi o'r polisi yswiriant a deall pa weithgareddau y mae'n eu cwmpasu.
- Sicrhau bod y rhaglen weithgareddau yn diwallu anghenion eich holl aelodau, yn addas ar gyfer ei grŵp oedran arfaethedig a'u bod yn rhywbeth y mae eich aelodau am ei wneud mewn gwirionedd. Rôl Ysgrifennydd Rhaglen Clwb
- Trefnu cyfarfodydd yn benodol ar gyfer aelodau newydd – gweler yr adran ar nosweithiau Aelodau Newydd.
- Sicrhau bod copïau o'r rhaglen clwb yn cael eu rhoi i'ch holl aelodau, y pwyllgor cyngori a swyddfa'r sir. Cael copi caled a/neu ei gyhoeddi ar-lein y gall mwy o bobl ei gyrchu. Cofiwch ei bod yn bwysig iawn cyfathrebu unrhyw gyfarfodydd/digwyddiadau clwb gan fod hyn yn helpu aelodau a rhieni i gynllunio ymlaen llaw.
- Hysbysebu digwyddiadau agored clybiau a chodwyr arian i annog cynulleidfa ehangach a chynyddu'r niferoedd sy'n mynychu. Defnyddiwch hysbysfyrdau lleol, cylchgronau pentref a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol priodol.
- Dylid rhoi rhaglenni Clwb allan gyda'r ffurflen Caniatâd Rhieni fel y gall rhieni/gwarcheidwaid roi caniatâd gwybodus i'w plentyn (unrhyw un dan 18 oed) gymryd rhan yn y gweithgareddau a restrir yn y rhaglen. Os gellir cynhyrchu'r rhaglen clwb ar ddechrau'r flwyddyn, bydd hyn yn lleihau faint o ffurflenni cydsynio rhieni sydd eu hangen drwy gydol y flwyddyn gan y gallant gwblhau un ar gyfer yr holl ddigwyddiadau ar y rhaglen a gynhyrchir.

AWGRYMIADAU GORAU AR GYFER EICH RÔL...

Mae gan ysgrifennydd y rhaglen un o'r rolau CFFl pwysicaf. Ceisiwch gynnwys gweithgareddau sy'n cynnwys materion addysgol, cymdeithasol, amaethyddol/gwledig, gwaith cymunedol a materion amgylcheddol/cyfoes Dyma ychydig o bethau i roi cynnig arnynt.

CYNLLUNIO

Gwnewch restr o gyfarfodydd yn eich lleoliad rheolaidd a rhai y tu allan, yna archebwch y lleoliad dros dro ar gyfer eich cyfarfodydd 'mewn'.

CYSTADLAETHAU

Cysylltwch eich rhaglen â'r amserlen cystadlaethau a threfnu sesiynau blasu/ymarfer fel cyfarfodydd clwb.

CADWCH MEWN COF...

Amser o'r flwyddyn, achlysuron crefyddol a diwylliannol, gwyliau ysgol, argymhellion a chyfarfodydd cynllunio gyda CFFl eraill.

ARCHEBION

Cyflwynwch eich hun, trafodwch yr hyn yr hoffech iddynt ei wneud, gofyn am gostau ac awgrymu dyddiadau addas. Cadarnhau'r holl fanylion mewn llythyr neu drwy e-bost.

